Polisi Iaith Gymraeg

Welsh Language Policy
2023-26

Lluniwyd gan: Robin Gwyn Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd Medi 2023
Dyddiad Adolygu: Tymor y Gwanwyn 2026

Adran **Rhif tudalen** **Rhif Paragraff**

1. Cyd-destun
2. Statws
3. Polisi
4. Gweithdrefn
5. Hyrwyddo
6. Monitro
7. Adolygu

Atodiadau:

i. **Polisi Grŵp NPTC ar ddyfarnu grantiau @ Medi 2023**

ii. **Polisi Grŵp NPTC ar ymdrin â chwynion @ Medi 2023**

Os hoffech chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod gael y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r Adran Adnoddau Dynol yn hr@nptcgroup.ac.uk neu ar 01639 648308

1. Cyd-destun

1.1 Ers Ebrill 2018, mae'r 'Polisi Iaith Gymraeg' hwn wedi disodli 'Cynllun Iaith Gymraeg' Grŵp Colegau NPTC ac yn disgrifio sut y bydd y Coleg yn sicrhau cydymffurfio statudol â 'Safonau' Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd y cysyniad o 'Safonau' yr Iaith Gymraeg gan Lywodraeth Cymru fel rhan annatod o Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Safonau yn sefydlu hawliau cyfartal i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg, yn seiliedig ar ddwy egwyddor:

- **'Yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'**
- **'Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny'**

1.2 Yn unol â Gweledigaeth a Chynllun Strategol y Coleg, bydd cydymffurfio statudol yn darparu gwaelodlin ar gyfer y Coleg i sicrhau y bydd y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir o'r un ansawdd a hygyrchedd â'r gwasanaeth iaith Saesneg a ddarperir.

1.3 Os bydd angen cymorth ar unrhyw aelod o staff o ran deall neu weithredu'r Polisi hwn, yn enwedig pan fo'r rhesymau dros hyn yn ymwneud ag anabledd, crefydd neu gred, rhyw, ailbennu rhywedd, tueddfryd rywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, oedran neu hil, dylent gysylltu â'r Uwch Swyddog: Amrywiaeth neu'r Uned AD, yn y lle cyntaf am gyngor.

2. Statws

Cymeradwywyd y drafft gan yr UDRh a Bwrdd Llywodraethwyr NPTC

3. Polisi

3.1 Mae'r Polisi wedi'i gynllunio'n bennaf i sicrhau cydymffurfio'n statudol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

3.2 Mae'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal yn rhan o'n hymrwymiad ehangach i gyfle cyfartal ar gyfer yr holl fyfyrwyr a staff a pharchu'r amrywiaeth gyfoethog sy'n amlygu ei hun yn y gymuned y mae'r Coleg yn ei gwasanaethu, yn cynnwys:

- atgyfnerthu ymrwymiad y Coleg i egwyddor ac arfer triniaeth gyfartal o ran yr iaith Gymraeg a'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru;
- creu amgylchedd cefnogol sy'n annog myfyrwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith i fynd ati i ddefnyddio'r iaith y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth;
- codi ymwybyddiaeth a sicrhau bod y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu cyflwyno i'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg, a'u hannog i gymryd rhan ynddynt.

4. Gweithdrefn

Caiff y polisi ei weithredu'n bennaf drwy:

- hyrwyddo gweithredol, protocolau mewnol, arolygon dilysu mewnol, a hyfforddiant staff gorfodol i sicrhau cydymffurfiaeth statudol, tryloywder, ac atebolrwydd mewn perthynas â safonau cyflenwi gwasanaethau penodol, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau cadw cofnodion a safonau sy'n ymwneud â materion atodol. Er mwyn helpu staff i gydymffurfio â'r Safonau, mae'r Coleg hefyd wedi datblygu crynodeb o'r egwyddorion allweddol ar ffurf **10 Rheol Aur.**

- datblygu dull strategol i recriwtio a hyfforddi staff i gau'r bwlch sgiliau rhwng y capasiti presennol a gofynion y 'Safonau' - yn ogystal â rhoi blaenoriaeth i ddarparu opsiynau modiwlau pynciau galwedigaethol yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol i adlewyrchu meysydd pwnc blaenoriaeth Llywodraeth Cymru

4.1 Cwmpas

Gellir categoreiddio Cwmpas y Safonau dan sylw'r protocolau fel a ganlyn:

4.1.1 Safonau Darparu Gwasanaeth

01-22: Gohebiaeth a galwadau ffôn
24-42: Cyfarfodydd a digwyddiadau
43-54: Dogfennau
55-63: Gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol
64-67: Arwyddion Cyhoeddus
68-74: Gwasanaethau Derbynfa
75-84: Cyllid a Chaffael
85-93: Cyhoeddusrwydd a Hawliau Myfyrwyr

4.1.2 Safonau Llunio Polisi

94-104: Llunio polisïau, Ymgynghori ac Ymchwil

4.1.3 Safonau Gweithredu

105-149: Polisïau AD a'r Fewnrwyd
150-153: Arwyddion yn y Gweithle

4.1.4 Safonau Cadw Cofnodion

154-157: Cwynion
158-163: Cofnodion AD

4.1.5 Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol

164-182: Monitro ac Adrodd

4.2 Tryloywder ac Atebolrwydd

Mae nifer o'r Safonau Cadw Cofnodion a'r Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol yn gofyn bod gan y Coleg Bolisi (Iaith Gymraeg) ar waith i ddarparu tryloywder ac atebolrwydd. Maent fel a ganlyn:

4.2.1 ***Safon 105:*** *Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.*
Bydd y polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

4.2.2 ***Safon 132:*** *Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.*
Mae adran 'Y Gymraeg a diwylliant Cymru traws-golegol' ddynodedig a chynhwysfawr ar y fewnrwyd.

4.2.3 ***Safon 163:*** *Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael*
(a) ar eich gwefan, a
(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
Bydd y polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

4.2.3 ***Safon 165:*** *Rhaid ichi:*
(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer:
(i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,
(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a
(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny.
(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac
(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y trefniadau hynny.

4.2.5 ***Safon 166:***
(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.
(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.
3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.
(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.
(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—
(a) ar eich gwefan, a
(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
Bydd y Coleg yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol Polisi Iaith Gymraeg.

4.2.6 ***Safon 167:***

Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Bydd y polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

4.2.7 ***Safon 169:***

Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael—

(a) ar eich gwefan, a

(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

Bydd y polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

4.2.8 ***Safon 171:*** *Rhaid ichi:*

(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,

(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac

(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

Bydd y polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y trefniadau hynny.

4.2.9 ***Safon 172:***

(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.

(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—

(a) ar eich gwefan, a

(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

Bydd y Coleg yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol Polisi Iaith Gymraeg.

4.2.10 ***Safon 173:***

Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Bydd y polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

4.2.11 ***Safon 175:***

Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael—

(a) ar eich gwefan, a

(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

Bydd y polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

4.2.12 ***Safon 177:***

Rhaid ichi:

(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer:

(i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,

(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a

(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny; a

(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnrwyd.

Bydd y Polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y trefniadau hynny.

4.2.13 ***Safon 178:***

(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

{2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—

(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 158);

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 159);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn honno, y ganran o gyfanswm y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 159);

(ch) nifer yr aelodau o staff sy'n gwisgo bathodyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 160);

(d) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—

(i) sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol,

(ii) angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg wrth gael eich penodi i'r swydd;

(iii sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol; neu

(iv) sgiliau iaith Gymraeg yn ddiangen (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 162);

(dd) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.

(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—

(a) ar eich gwefan, a
(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
Bydd y Coleg yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol Polisi Iaith Gymraeg.

4.2.14 ***Safon 179:***
Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.
Bydd y polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

4.2.15 ***Safon 181:***
Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael—
(a) ar eich gwefan, a
(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
Bydd y polisi hwn a'i atodiadau yn gwasanaethu fel y ddogfen honno.

4.3 Strategaeth Sgiliau Iaith a Darpariaeth y Cwricwlwm

4.3.1 Trwy ei Strategaeth Sgiliau Iaith, mae'r Coleg yn ymrwymedig i sicrhau y bydd y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gan y coleg o'r un ansawdd a hygyrchedd â'r gwasanaeth Saesneg a ddarperir.

Er y bydd cydymffurfiaeth statudol â Safonau'r Iaith Gymraeg yn darparu llinell sylfaen, mae'r Coleg yn cydnabod y gall bob amser wneud rhagor i sicrhau cydraddoldeb y gwasanaeth drwy'r camau canlynol:

- Bydd y gallu yn yr iaith Gymraeg a allai fod yn ofynnol ai peidio at ddibenion gwaith yn cael ei drin fel gofyniad sgil fel unrhyw un arall.
- Bydd aelodau o staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i gaffael a defnyddio'u sgiliau dwyieithog.

4.3.2 Yn ogystal â pharchu y 10 Hawl Myfyriwr sydd wedi'u cynnwys o fewn y Safonau, mae'r Coleg yn ymrwymedig i flaenoriaethu darparu opsiynau modiwlau'r cwricwlwm yn y dyfodol yn ddwyieithog neu drwy y gyfrwng y Gymraeg i adlewyrchu wyth maes blaenoriaeth Llywodraeth Cymru lle mae'r galw am bobl â sgiliau dwyieithog yn fwyaf tebygol o gynyddu:

1. **Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant**
2. **Gwasanaethau Cyhoeddus (gan gynnwys Chwaraeon)**
3. **Amaethyddiaeth a Diwydiannau'r Tir**
4. **Gweinyddiaeth Fusnes a TG**
5. **Hamdden a Thwristiaeth**
6. **Astudiaethau'r Cyfryngau a'r Celfyddydau Perfformio**
7. **Adeiladwaith**
8. **Peirianneg**

5. Hyrwyddo'r Polisi (gan gynnwys Safonau'r Gymraeg)

5.1 Hyrwyddo i Staff

5.1.2 Hyfforddiant ar-lein gorfodol - cwrs e-ddysgu ar-lein rhyngweithiol 60 munud ymarferol wedi'i gynllunio i alluogi staff i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau allweddol o dan y gyfraith (Mesur y Gymraeg, 2011).

Mae'r rhaglen (sy'n ganolog i broses gynefino pob aelod newydd o staff ac yn orfodol i'r holl staff presennol bob tair blynedd) wedi'i chynllunio i:

- Sicrhau y byddai staff yn cael hyfforddiant ar-lein rhyngweithiol priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg – gan gynnwys Safonau darparu gwasanaethau, gweithredu, llunio polisïau a chadw cofnodion – sy'n gyson â dull mynediad o bell y Coleg at hyfforddiant gorfodol mewn meysydd tebyg eraill megis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Rhagfarn Ddiarwybod.

- Cyfrannu at greu amgylchedd cefnogol sy'n annog myfyrwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd i fynd ati i ddefnyddio'r iaith y tu mewn i'r ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi.

- Atgyfnerthu ymrwymiad y Coleg i egwyddor ac arfer triniaeth gyfartal o ran yr iaith Gymraeg a'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

- Codi ymwybyddiaeth a sicrhau bod y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu cyflwyno i'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg, a'u hannog i gymryd rhan ynddynt.

5.1.2 Adnoddau a deunyddiau ategol

- Sesiynau briffio a gweithdai wyneb yn wyneb rheolaidd gyda staff ar draws pob campws
- Tudalennau Mewnrwyd 'Sharepoint' sy'n cynnwys canllawiau cynhwysfawr ar ofynion Safonau'r Gymraeg.
- Polisi ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg
- Tîm cyfieithu mewnol gyda gallu cyfieithu ar y pryd
- Tudalennau mewnrwyd ar wasanaethau cyfieithu mewnol
- Trefn gwyno yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
- Canllawiau manwl ar asesu sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd

5.1.3 Hyrwyddo i Fyfyrwyr a'r Cyhoedd

- Defnyddiwyd grwpiau neu fforymau presennol (ee cyngor myfyrwyr) i gasglu barn am wasanaethau Cymraeg a dysgu am eu profiad.

- Cwestiynau uniongyrchol – anogir staff rheng flaen i ofyn cwestiynau penodol i gwsmeriaid ar ôl iddynt ymwneud â'r sefydliad i ofyn am farn y gwasanaeth.

- Arolygon defnyddwyr - casglu barn trwy arolygon ar-lein a phapur yn ceisio barn defnyddwyr wrth iddynt ymweld â gwefan y sefydliad a gwasanaethau eraill.

6. Monitro'r Polisi (gan gynnwys Safonau'r Gymraeg)

6.1 Arweinyddiaeth strategol - Y Prif Weithredwr (PW) sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r Polisi Iaith Gymraeg, gan gynnwys Safonau'r Iaith Gymraeg. Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod aelod o'r uwch dîm rheoli yn atebol am weithredu a monitro'r polisi.

6.2 Atebolrwydd annibynnol - Bydd y Gorfforaeth (Bwrdd y Llywodraethwyr) yn nodi Aelod fydd yn benodol gyfrifol am hyrwyddo dwyieithrwydd**.**

6.3 Arbenigwr gweithredol - Y Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd sy'n gyfrifol am weithredu gweithrediad a monitro, gyda chynnydd yn cael ei fonitro gan Weithgor Dwyieithrwydd Grŵp NPTC (dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Cynorthwyol: Cwricwlwm)

6.4 Hyrwyddwyr a chydlynwyr y Gymraeg - Y Gweithgor Dwyieithrwydd (BWG), dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Cynorthwyol: Cwricwlwm, sydd â cyfrifoldeb cyffredinol dros fonitro gweithrediad y polisi mewn cydweithrediad â grŵp craidd y Gweithgor Dwyieithrwydd, sef y Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd, Y Cydgysylltydd Datblygu Dwyieithog, Swyddog Datblygu'r Gymraeg, cyfieithwyr y Coleg a'r Swyddog Cymorth Busnes i'r Penaethiaid Cynorthwyol.

6.5 Atebolrwydd cymheiriaid - Mae rheolwyr llinell allweddol yn atebol am weithredu'r Safonau sy'n berthnasol i'w meysydd cyfrifoldeb ac am ddarparu adborth ar gydymffurfio yn y meysydd hynny mewn perthynas â gofynion y Cynllun drwy:

- Adroddiadau chwarterol ar gynnydd i'r Gweithgor Dwyieithrwydd/Uwch Dîm Rheoli;
- Cyfrannu at adroddiadau blynyddol sy'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (Cadw Cofnodion a Materion Atodol);
- archwiliadau mewnol ac arolygon gwirio rheolaidd yn ogystal â gwiriadau siopwr cudd allanol i fonitro effeithiolrwydd,

6.6 Cynllun gweithredu – lluniwyd cynllun gweithredu adrannol cychwynnol i weithredu'r Safonau i gyd-fynd â'u gosod ym mis Ebrill 2018 ac mae cynnydd ar dargedau mewn adrannau allweddol yn parhau i gael ei adolygu yng nghyfarfodydd chwarterol y Gweithgor Dwyieithrwydd.

6.7 Hunan Arfarniad Staff – Mae'r dull hwn yn golygu ei gwneud yn ofynnol i bob pennaeth neu reolwr adran neu dîm adrodd yn rheolaidd i'r BWG ar gydymffurfio â'r safonau hynny sy'n berthnasol i'w maes gwaith. Gwneir hyn trwy ddefnyddio ffurflenni hunan-fonitro lle mae gofyn i bob adran adrodd ar sut y maent yn sicrhau cydymffurfiaeth yn erbyn pob safon neu grŵp o safonau yn ogystal ag adnabod unrhyw fylchau neu fethiannau.

6.8 Gwiriadau ar hap - arolygon gwirio uniongyrchol i'w cynnal gan y Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd unwaith y tymor ar sampl o Safonau.

6.9 Archwilio Mewnol – mae craffu ar drefniadau'r sefydliad mewn perthynas â safonau'r Gymraeg
wedi'i gynnwys yn y cylch o archwiliadau mewnol annibynnol o feysydd gwaith y Coleg.

6.10 Dull seiliedig ar risg – Cedwir cofrestr Risg Sgiliau Iaith Gymraeg i nodi a lliniaru risgiau mewn meysydd blaenoriaeth.

6.11 Cadw cofnodion – cadw cofnodion o ddata ac ystadegau gofynnol i hwyluso cydymffurfiaeth â'r Safonau.

7. Adolygu'r Polisi

Adolygir y Polisi bob tair blynedd gan y Gweithgor Dwyieithrwydd.
Cynhelir yr adolygiad nesaf yn nhymor y gwanwyn 2026.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ac Iaith a Dogfen Sgrinio

Defnyddir y ddogfen hon i gofnodi'r asesiad o p'un a fydd newid i bolisi, arferiad neu ddarpariaeth yn cael effaith negyddol ynteu effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb nodwedd warchodedig neu ar y defnydd o'r Gymraeg.

Cam 1 – Sgrinio Cychwynnol

Yn gyntaf, ystyriwch ba eitem sy'n cael ei hasesu a beth yw ei phwrpas?
Gan ddefnyddio'r blychau isod, rhowch ddisgrifiad o'r polisi, yr arferiad neu'r ddarpariaeth sy'n cael ei hasesu ynghyd â datganiad cryno ynghylch yr hyn y bwriedir i'r eitem ei gyflawni (ei nodau a'i hamcanion) ac ar bwy y mae'n effeithio, e.e. staff, myfyrwyr, rhieni/gofalwyr, partneriaid, ac yn y blaen.

Disgrifiad o'r eitem: **Polisi Iaith Gymraeg 2018** Mae'r 'Polisi Iaith Gymraeg' hwn yn disodli 'Cynllun Iaith Gymraeg' Grŵp Colegau NPTC ac yn disgrifio sut y bydd y Coleg yn sicrhau cydymffurfio statudol â 'Safonau' Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru 'Safonau' o 1 Ebrill 2018 ymlaen.
Nodau ac amcanion Mae'r Polisi wedi'i gynllunio'n bennaf i sicrhau cydymffurfio'n statudol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru er mwyn: • darparu mwy o wasanaethau o ansawdd uchel, ar lafar ac yn ysgrifenedig, trwy gyfrwng y Gymraeg; • darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau Cymraeg; • darparu mecanwaith ar gyfer sefydlu ein sefyllfa bresennol, i'n galluogi i osod targedau ac adrodd ar berfformiad yn y dyfodol; • nodi ein buddsoddiad mewn datblygu sgiliau iaith Gymraeg; • hysbysu ein rhanddeiliaid, gan gynnwys staff a'r cyhoedd am y polisi.
Y rheiny yr effeithir arnynt - e.e. staff, myfyrwyr, rhieni, partneriaid ac yn y blaen: Y cyhoedd, staff, myfyrwyr, rhieni, partneriaid

Gan ystyried yr eitem sy'n cael ei hasesu, defnyddiwch y blychau isod i gofnodi eich syniadau cychwynnol ynghylch y canlyniadau posibl i'r naw nodwedd warchodedig ac i'r defnydd o'r Gymraeg.

Nodwedd Warchodedig	Effaith bosibl yn gadarnhaol neu'n negyddol
Rhyw Gelwir hefyd yn rhywedd, yn golygu dyn neu ddynes	Dim effaith bosibl yn seiliedig ar Ryw
Hil Mae'n cyfeirio at nodwedd warchodedig Hil. Mae'n cyfeirio at grŵp o bobl sy'n cael eu diffinio yn ôl eu hil, lliw, a chenedl (gan gynnwys dinasyddiaeth), tras ethnig neu genedlaethol.	Effaith gadarnhaol - mae'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal yn rhan o'n hymrwymiad ehangach i gyfle cyfartal ar gyfer yr holl fyfyrwyr a staff a pharchu'r amrywiaeth gyfoethog sy'n amlygu ei hun yn y gymuned y mae'r Coleg yn ei gwasanaethu.
Nodwedd Warchodedig	**Effaith bosibl yn gadarnhaol neu'n negyddol**
Oed Lle y cyfeirir at hyn mae'n cyfeirio at berson sy'n perthyn i oedran neilltuol (e.e. pobl 32 mlwydd oed) neu ystod oedran (e.e. pobl 18 - 30 mlwydd oed).	Effaith bositif ar gyfer rhai grwpiau oedran sy'n siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac felly y byddant yn elwa o gael gwell mynediad i ddogfennau a gwasanaethau yn y Gymraeg
Ail-bennu Rhywedd Y broses o drosglwyddo o un rhyw i'r llall	Dim effaith bosibl yn seiliedig ar ailbennu rhywedd
Cyfeiriadedd Rhywiol P'un a yw person yn cael ei ddenu'n rhywiol tuag at ei ryw ei hun, y rhyw arall ynteu'r ddau ryw.	Dim effaith bosibl yn seiliedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol
Crefydd a Chred Mae crefydd yn golygu yr ystyr a roddir iddi fel arfer ond mae cred yn cynnwys daliadau athronyddol gan gynnwys diffyg cred (e.e. Anffyddiaeth). Yn gyffredinol, dylai cred, er mwyn iddi gael ei chynnwys yn y diffiniad, effeithio ar eich dewisiadau mewn bywyd neu'r ffordd yr ydych yn byw.	Dim effaith bosibl yn seiliedig ar grefydd ar gred
Beichiogrwydd a Mamolaeth Beichiogrwydd yw'r cyfnod pan fydd rhywun yn disgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl y geni.	Dim effaith bosibl ar sail beichiogrwydd a mamolaeth
Priodas a Phartneriaeth Sifil Priodas - rhwng cyplau o'r un rhyw neu wahanol rywiau, Partneriaeth Sifil – rhwng cyplau o'r un rhyw.	Dim effaith bosibl yn seiliedig ar priodas a phartneriaeth sifil
Anabledd Unrhyw gyflwr tymor hir sy'n effeithio ar weithgarwch dydd i ddydd. Mae cyflyrau yn cynnwys nam ar y clyw	Efallai y bydd y potensial ar gyfer darparu rhagor o wasanaethau ac adnoddau Cymraeg drwy dechnegau hirbell a thrwy fideo-gynadledda yn cael effaith negyddol ar rai pobl anabl – i eraill gallai wella eu mynediad at gyfleoedd dysgu.

neu'r golwg a namau corfforol, anabledd dysgu, iechyd meddwl, canser, HIV ac MS.	

Defnydd o'r Iaith Gymraeg	Effaith bosibl yn gadarnhaol neu'n negyddol
Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu hawliau cyfartal i siaradwyr Cymraeg, yn seiliedig ar yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r egwyddor wedi'i chynnwys fel set o hawliau statudol yn y 182 o 'Safonau' y Gymraeg sy'n berthnasol i golegau addysg bellach (o 1 Ebrill 2018). Rhaid i ddatblygwyr neu adolygwyr polisi sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r 'Safonau' perthnasol ' ac ystyried a yw'n cael effaith gadarnhaol neu negyddol arnynt.	Effaith gadarnhaol - cyflwynwyd y cysyniad o 'Safonau' y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru fel rhan annatod o Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Gan adeiladu ar yr egwyddorion sylfaenol a sefydlwyd yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Coleg, maent yn ffurfio set o ofynion cyfreithiol rwymol i'w rheoleiddio'n annibynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg (CyG). Mae'r Safonau yn sefydlu hawliau cyfartal i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg, yn seiliedig ar ddwy egwyddor: • **'Yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'** • **'Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny'** Yn unol â Gweledigaeth a Chynllun Strategol y Coleg, bydd cydymffurfio statudol yn darparu gwaelodlin ar gyfer y Coleg i sicrhau y bydd y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir o'r un ansawdd a hygyrchedd â'r gwasanaeth iaith Saesneg a ddarperir.
Esboniad – os yw'n briodol	
Lefel Blaenoriaeth: uchel/canolig/isel	

Cam 2 – Dadansoddiad

Yn seiliedig ar y broses sgrinio uchod, bydd angen i chi gynnal dadansoddiad i ddilysu eich penderfyniad cychwynnol. Isod mae angen i chi ddangos pa ddadansoddiad o safbwynt cydraddoldeb ac iaith sydd wedi ei gwblhau ar yr eitem hon? Rhestrwch y dystiolaeth, y data neu'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi effaith yr eitem hon. (gan gynnwys unrhyw ddata, adroddiadau, arolygon neu gysylltiadau â'r we a ddefnyddiwyd yn y broses)

Nodweddion Gwarchodedig	Ffynhonnell Data a Chanfyddiadau
Rhyw	
Hil	Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/contents Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/English/Commissioner/Law/The%20Welsh%20Language%20(Wales)%20Measure%202011/Pages/The-Welsh-Language-(Wales)-Measure-2011.aspx
Anabledd	
Cyfeiriadedd Rhywiol	
Oed	
Mamolaeth a Beichiogrwydd	
Priodas a Phartneriaeth Sifil	
Crefydd a Chred	
Rhyw Rhywedd	

Defnydd o'r Iaith Gymraeg	Ffynhonnell Data a Chanfyddiadau
Welsh	Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/contents Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Comisiynydd/Gyfraith/Mesur%20y%20Gymraeg%20(Cymru)%202011/Pages/Mesur-y-Gymraeg-(Cymru)-2011.aspx

Cam 3 – Ymgysylltu/Ymgynghori ac Asesu

Yn dilyn eich dadansoddiad, mae angen i chi yn awr gofnodi sut yr aseswyd yr eitem gennych a phwy a gymerodd ran yn y broses Sut y cyrhaeddwyd yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb ac iaith a phwy oedd â rhan yn y penderfyniad?

Grŵp yr effeithir arno	Natur yr effaith gadarnhaol a/neu negyddol neu eglurhad pam nad oes effaith ganfyddedig
Rhyw	
Hil	Yn ystod 2015-17, cynhaliwyd gwaith manwl gan y **Gweithgor Dwyieithrwydd** i sicrhau bod gwaith paratoi ar gyfer dyfodiad Safonau'r Gymraeg ym mis Ebrill 2018 yn adlewyrchu ymrwymiad ehangach y Coleg i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, gan gynnwys: • Atgyfnerthu ymrwymiad y Coleg i egwyddor ac arfer triniaeth gyfartal o ran yr iaith Gymraeg a'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Creu amgylchedd cefnogol sy'n annog myfyrwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith i fynd ati i ddefnyddio'r iaith y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. • Codi ymwybyddiaeth a sicrhau bod y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu cyflwyno i'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg, a'u hannog i gymryd rhan ynddynt.
Anabledd	
Cyfeiriadedd Rhywiol	
Oed	
Mamolaeth a Beichiogrwydd	
Priodas a Phartneriaeth Sifil	
Crefydd a Chred	

Ail-bennu Rhywedd	
Welsh	Mae paratoi ar gyfer dyfodiad Safonau'r Gymraeg wedi cynnwys: • Protocolau i sicrhau cydymffurfiaeth statudol, tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â safonau cyflenwi gwasanaethau penodol, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau cadw cofnodion a safonau sy'n ymwneud â materion atodol. Er mwyn helpu staff i gydymffurfio â'r Safonau, mae'r Coleg hefyd wedi datblygu crynodeb o'r egwyddorion allweddol ar ffurf **10 Rheol Aur (Atodiad ii).** • Datblygu dull strategol i recriwtio a hyfforddi staff i gau'r bwlch sgiliau rhwng y capasiti presennol a gofynion y 'Safonau' - yn ogystal â rhoi blaenoriaeth i ddarparu opsiynau modiwlau pynciau galwedigaethol yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol i adlewyrchu meysydd pwnc blaenoriaeth Llywodraeth Cymru

Cam 4 – Lliniaru a Newidiadau

Yn olaf, dywedwch pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud neu sydd wedi eu trefnu yn dilyn yr asesu a'r ymgysylltu er mwyn lleihau neu ddileu unrhyw effaith anffafriol?

Effaith	Newid posibl	Argymhellwyd a Gweithredwyd
Anabledd	Ystyried unrhyw ddulliau neu ffyrdd addysgu newydd mewn perthynas ag anableddau	Mae'n bwysig i aros yn ymwybodol o sut y gallai technoleg newydd yn yr amgylchedd dysgu effeithio ar anableddau penodol - bydd hyn yn parhau yn ystyriaeth barhaus

Datganiad o gyfiawnhad a lliniaru lle na ellir osgoi effaith negyddol

Cofnod o Dystiolaeth

1. Ymgynghori

Pa ymgynghori a ddigwyddodd? (dywedwch pryd a gyda phwy)

Proses ymgynghori	Canfyddiadau
Uwch Dîm Rheoli Rheolwr AD Grŵp Rheoli Gweithredol Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd	
Mynychodd oddeutu 45 o reolwyr swyddogaethol a Phenaethiaid Ysgol bedair Sesiwn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth a Chanllawiau Ymarferol ar y Safonau a gynhaliwyd yng Nghastell-nedd a'r Drenewydd - 13,14, 15 a 23 Mawrth 2018	

2. Cyhoeddi

Pryd y caiff yr Asesiad ar Gydraddoldeb ac Iaith ei gyhoeddi?

Dyddiad a dull:

2022 - gwefan

3. Monitro ac Adolygu

Sut bydd yr eitem hon yn cael ei hadolygu a'i monitro?

Y person arweiniol neu'r grŵp sy'n gyfrifol a dyddiadau adolygu

Robin Gwyn, Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd
Gweithgor Dwyieithrwydd

Parhad Busnes

- Ydy'r datganiad ynghylch fformat gwahanol wedi ei gynnwys ar ddechrau'r ddogfen bolisi?

  Os byddech chi neu rywun yr ydych chi'n ei adnabod yn hoffi cael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r Uned Adnoddau Dynol, os gwelwch yn dda, yn hr@nptcgroup.ac.uk neu ar 01639 648308.

  - Ydy'r ddogfen wedi ei fformatio yn unol â chanllawiau cyhoeddi Grŵp NPTC a'r templed polisi?
  - A yw'r paragraff Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i addasu a'i chynnwys?

  Os bydd angen cymorth ar unrhyw aelod o staff o ran deall neu weithredu'r polisi hwn, yn enwedig pan fo'r rhesymau dros hyn yn ymwneud ag anabledd, crefydd neu gred, rhyw, ailbennu rhywedd, tueddfryd rywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, oedran neu hil, dylent gysylltu â'r Adran AD yn y lle cyntaf am gyngor.

  - Pan fyddwch wedi cwblhau'r gwaith papur gwnewch yn siŵr, os gwelwch yn dda, ei fod wedi ei ychwanegu fel atodiad i'r polisi neu'r weithdrefn berthnasol.
  - Unrhyw gwestiynau? Cysylltwch â'r Uned AD ar 01639 648308 neu drwy e-bost hr@nptcgroup.ac.uk

Llofnod y Rheolwr Asesu

Enw (Printiwch):
Llofnod:
Dyddiad: